# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Chwarae Dechrau'n Deg Bluebells**

**Canolfan Alway**
**Aberthaw Avenue**
**Casnewydd**
**NP19 9NS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/12/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Chwarae Dechrau'n Deg Bluebells yn un o sawl lleoliad y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn eu rhedeg o fewn y Tîm Gofal Plant a Chwarae. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cyflogi Unigolyn Cyfrifol i oruchwylio agweddau gweithredol ar y cylch chwarae, a Pherson â Chyfrifoldeb i'w redeg o ddydd i ddydd. Mae'r cylch chwarae wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ofalu am 17 o blant ar sail sesiwn. Mae'n gofalu am blant dwy a tair oed yn ystod tymor yr ysgol ac mae wedi'i leoli yng Nghanolfan Alway yng Nghasnewydd. Mae'r cylch chwarae yn un o ddau wasanaeth dechrau'n deg sy'n gweithredu o'r ganolfan. Saesneg yw iaith y gwasanaeth, a chyflwynir Cymraeg achlysurol i'r plant bob dydd.

## Crynodeb

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn hapus, yn cael hwyl ac yn mwynhau mynd i'r cylch chwarae. Maent yn gwneud dewisiadau ac yn meithrin cydberthnasau da â'r staff, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel. Mae'r staff yn gwybod ac yn deall eu rolau'n dda, sy'n sicrhau bod anghenion gofal iechyd y plant yn cael eu diwallu'n gryf a bod prosesau goruchwylio yn gadarn. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol yn y lleoliad ac yn y gymuned leol sy'n cefnogi ac yn cyfoethogi eu hanghenion dysgu unigol. Mae adnoddau a chyfarpar o ansawdd da ac mae ystafell chwarae ddeniadol yn creu amgylchedd croesawgar lle gall y plant ffynnu. Ar y cyfan, mae cofnodion a dogfennaeth diogelwch ar waith, ond gellid gwella asesiadau risg. Mae'r tîm arwain, y tîm rheoli a'r tîm o staff llawn cymhelliant yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i helpu i redeg y cylch chwarae yn ddidrafferth. Mae'r rhan fwyaf o'r systemau cofnodi a rheoli ar waith ac mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r gymuned yn effeithiol.

**2. Gwelliannau**

Er mai hwn yw'r arolygiad cyntaf ers iddo gael ei gofrestru, mae'r staff wedi meithrin cysylltiadau cryf â'r gwasanaeth dechrau'n deg arall sy'n gweithredu o'r ganolfan. Gwnaethom nodi un maes o ddiffyg cydymffurfio yn ymwneud â pheidio â chwblhau cofrestrau'r staff a'r plant yn gyson. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio y tro hwn am fod yr Unigolyn Cyfrifol wedi cytuno i adolygu'r trefniadau ar gyfer cwblhau cofrestr y plant ar ddydd Gwener ac atgyfnerthu pwysigrwydd defnyddio'r system lofnodi newydd wrth gyrraedd ac wrth adael bob amser gyda'r staff.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Gwnaethom gytuno ar dri argymhelliad i wella ymarfer a chanlyniadau'r plant ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: asesiadau risg, proses ansawdd y

gofal a chofnodion y plant. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn fanylach ar ddiwedd yr adroddiad.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi i fynegi eu hunain a rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff a'u ffrindiau. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu gofal ac maent yn hapus ac yn cael llawer o hwyl wrth chwarae. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda mewn gweithgareddau a gynlluniwyd ac yn ymateb yn gadarnhaol i brofiadau newydd sy'n gwella eu dysgu a'u sgiliau.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn gwbl ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt ac maent yn hyderus i wneud dewisiadau priodol. Gwnaethom nodi bod y plant yn wên o glust i glust wrth i'r staff eu croesawu'n gynnes a'u bod yn mynd i chwarae yn syth, gan ddod o hyd i'r gweithgaredd neu'r teganau roeddent am chwarae â nhw. Gwelsom hefyd fod y plant yn dewis a oeddent am gymryd rhan yn y gweithgaredd a drefnwyd yn ystod y sesiwn. Yn ystod amser byrbryd, gwelsom fod y rhan fwyaf o'r plant yn dewis yr hyn roeddent am ei fwyta yn frwdfrydig, tra bod eraill yn penderfynu cael dŵr neu laeth. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fynegi eu teimladau. Yn ystod amser cylch, mae'r plant yn mynegi eu barn a'u teimladau ynglŷn â sut aeth y sesiwn iddynt drwy roi eu cerdyn enw wrth ymyl wyneb hapus neu drist ar y bwrdd. Esboniodd y staff sut roedd plentyn yn arfer dod i mewn yn dweud ei fod yn flin ac roedd yn dangos ei wyneb blin. Bellach, mae'r plentyn yn dod i mewn bob bore ac yn siarad â'r aelod o staff am y ffordd mae'n teimlo, gan fynegi gwahanol emosiynau. Clywsom y plentyn yn datgan yn hyderus, "*I am so excited, this is my excited face*" gan floeddio, gwenu a chwifio ei freichiau yn yr awyr.

Mae'r plant wedi meithrin cysylltiadau emosiynol cryf â'r staff ac maent yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi. Roeddent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn ymdopi'n dda â'r newidiadau pan roddwyd rhybudd o 5 munud iddynt ar gyfer amser tacluso neu amser byrbryd. Gwnaethom nodi bod y plant yn cydymffurfio â'r rheolau ar y cyfan ac yn cydweithio wrth roi'r teganau i gadw. Mae'r plant yn ddysgwyr gweithredol a chwilfrydig sy'n ymateb yn gadarnhaol i brofiadau newydd. Ar ymweliad i gartref gofal lleol i ganu carolau Nadolig i'r preswylwyr, roedd y plant yn teimlo'n ddiogel gyda'u person allweddol. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o'r plant yn hapus i ryngweithio a lliwio lluniau ochr yn ochr â'r preswylwyr hŷn. Roedd y plant yn ymddiddori ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brofiadau chwarae a gweithgareddau a gynlluniwyd sy'n cefnogi ac yn ysgogi eu dysgu. Gwelsom sawl plentyn yn treulio cyfnodau hir yn archwilio ansawdd ac arogl yr ewyn eillio ac yn arbrofi drwy wneud patrymau gwahanol gyda'u bysedd. Roeddent yn cael llawer o hwyl yn chwarae yn y pwll mawr yn yr ardd, gan chwerthin a bloeddio'n hapus iawn. Mae'r plant yn dysgu sgiliau newydd ac yn cael cyfleoedd da drwy gydol y sesiwn i ymarfer a datblygu eu sgiliau hunangymorth. Gwelsom y plant yn defnyddio'r orsaf ddŵr yn annibynnol gyda'r staff yno i'w helpu pan oedd angen. Roeddent yn cael eu hannog i olchi a sychu eu

dwylo, taflu'r tywel papur, arllwys eu diodydd eu hunain amser byrbryd a glanhau unrhyw ollyngiadau.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiogelu ac mae'n sail i bob agwedd ar ymarfer. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn agos ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y lleoliad ar waith yn gadarn. Maent yn gadarnhaol ac yn gweithio'n dda fel tîm i reoli rhyngweithio'r plant yn gyson. Mae'r plant yn gwneud cynnydd da gan fod y staff yn cynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol yn seiliedig ar arsylwi ar sail gwybodaeth ac asesiadau. Mae hyn yn galluogi'r staff i deilwra gweithgareddau a chefnogaeth i anghenion dysgu unigol eu plant allweddol.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rôl i gadw'r plant yn ddiogel a hybu eu hiechyd. Mae'r staff yn deall polisïau a gweithdrefnau manwl a llawn gwybodaeth yn dda iawn ac yn eu rhoi ar waith yn gadarn i helpu i ategu arferion diogel. Roedd sgyrsiau â sawl aelod o'r staff yn pwysleisio bod ganddynt ddealltwriaeth hyderus o faterion diogelu a dealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau i'w dilyn gydag unrhyw bryderon ynglŷn â llesiant plentyn. Roedd y staff yn goruchwylio'r plant yn agos drwy gydol y sesiwn ac ar y daith, ac yn siarad â'r plant am ddisgwyliadau. Er enghraifft, dal dwylo'r staff bob amser ac eistedd yn daclus ar y bws. Yn unol â'r Polisi Teithiau, roedd pob plentyn yn gwisgo bibiau llachar, roedd gan y staff uchafswm o ddau blentyn yr un, a gwelsom y Person â Chyfrifoldeb yn cyfrif y plant yn aml i sicrhau bod pawb yn bresennol. Roedd arferion hylendid cadarn yn cael eu dilyn yn gyson. Roeddent yn gwisgo ffedogau a menig untro wrth baratoi bwyd ac yn newid y rhain wrth baratoi brwsys dannedd y plant.  Roedd brwsio dannedd yn ddyddiol, modelu'r staff a chanu cân y brws dannedd yn helpu i atgyfnerthu arferion iechyd y geg da. Mae'r plant yn cael budd o fwydlen byrbrydau cytbwys yn unol â dyfarniad Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy y lleoliad. Roeddent yn mwynhau eu cracers a'u ffrwythau ac yn hyderus i ofyn am fwy o orennau neu laeth.

Mae'r staff yn gweithredu mewn ffordd gyson, deg a chadarnhaol o ran eu dull i ddiogelu rhyngweithiadau.  Pan oedd y plant yn rhedeg o gwmpas yr ystafell, clywsom aelod o'r staff yn eu hatgoffa yn rheolaidd i gerdded dan do. Er na wrandawodd y plant i ddechrau, gwnaeth y rhan fwyaf o'r staff yn yr ystafell helpu i atgyfnerthu'r neges wedyn i hyrwyddo dull cyson o weithredu.  Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn garedig ac yn ofalgar ac yn canmol y plant yn rheolaidd i gydnabod a dathlu eu cyflawniadau a'u hymddygiad da. Clywsom y staff yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn ystod arferion dyddiol i annog sgiliau Cymraeg y plant. Gwelsom sampl o broffiliau a dyddiaduron dysgu Cyfnod Sylfaen y plant y mae'r staff yn eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r staff yn arsylwi ar gyflawniadau'r plant yn rheolaidd er mwyn asesu eu cynnydd

a nodi eu camau nesaf. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau y caiff y gwaith o gynllunio gweithgareddau eu cwblhau fel tîm, a chaiff manylion camau nesaf eu plant allweddol eu trafod a'u defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio. O ganlyniad, mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol a gaiff eu teilwra i'w hanghenion unigol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae mesurau diogelwch cadarn ar waith i helpu i ddiogelu llesiant y plant, a chaiff y staff eu defnyddio'n effeithiol i oruchwylio'r plant yn agos a'u cadw'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion diogelwch yn fanwl ac yn cael eu cadw'n briodol, ond gellid gwella a diweddaru asesiadau risg. Mae'r ystafell chwarae yn olau, yn gynnes ac yn groesawgar ac mae dodrefn ac adnoddau o ansawdd yn cyfoethogi profiadau chwarae a dysgu'r plant.

### Ein canfyddiadau

Mae ardaloedd croesawgar, sy'n addas i blant yn eu helpu i gael profiadau chwarae ystyrlon. Mae pegiau cotiau â'u henwau arnynt, lluniau o'r plant ac enghreifftiau o'u gwaith yn addurno'r waliau, sy'n helpu'r plant i gael ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r ystafell chwarae wedi'i threfnu'n dda ac yn darparu lle addas i'r plant chwarae, gyda rhai ardaloedd dysgu amlwg sy'n cynnig profiadau chwarae amrywiol. Roedd amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau o ansawdd da y mae'r staff yn eu cynllunio ac yn eu cylchdroi'n rheolaidd i ddarparu gwahanol brofiadau chwarae a dysgu i'r plant. Mae unedau storio ar lefel isel a dodrefn o faint sy'n addas i blant yn galluogi'r plant i gael gafael ar weithgareddau ac adnoddau yn hawdd. Er nad oes modd cyrraedd yr ardd o'r ystafell chwarae yn uniongyrchol, a'i bod yn cael ei rhannu â'r gwasanaeth dechrau'n deg arall, mae'r plant yn cael amseroedd penodol yn y sesiwn chwarae yn yr awyr agored. Mae'r plant ym mhob grŵp hefyd yn gwisgo siwt wlyb o wahanol liwiau i helpu'r staff i adnabod eu plant yn hawdd. Mae'r staff yn dechrau defnyddio'r gymuned leol i wella profiadau a chyfleoedd dysgu'r plant. Gwnaeth y plant fwynhau taith fws i weld Siôn Corn a gwnaethant ymweld â chartref gofal preswyl lleol i'r henoed.

Caiff System Rheoli'r Safle ei monitro'n rheolaidd gan un o Swyddogion Iechyd a Diogelwch Cyngor Dinas Casnewydd i sicrhau bod yr holl weithdrefnau iechyd a diogelwch a'r cofnodion a mesurau diogelwch priodol ar waith. Roedd adolygiad o'r cofnod tân yn dangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn ac roedd trafodaethau â'r staff yn pwysleisio bod ganddynt wybodaeth addas o'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae asesiadau risg cyffredinol ar waith ar gyfer yr ystafell chwarae ac ardaloedd eraill y mae'r cylch chwarae yn eu defnyddio yn yr adeilad. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw asesiadau risg ar gyfer pob math o daith a gynhelir, gan gynnwys ymweliadau â'r cartref gofal, ymweld â Siôn Corn a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, gwnaethom nodi ar y daith i'r cartref gofal bod y staff yn wyliadwrus ac yn goruchwylio'r plant yn agos. Caiff mesurau diogelwch cadarn eu dilyn yn rheolaidd i sicrhau bod y plant yn cyrraedd ac yn cael eu casglu'n ddiogel. Ceir mynediad i'r prif adeilad drwy intercom a system cod allwedd ar ddrws yr ystafell chwarae. Mae hyn yn sicrhau nad oes neb yn gallu mynd i mewn i'r ystafell chwarae heb oruchwyliaeth. Gwelsom y staff yn sefyll yn y cyntedd ac wrth ddrws yr ystafell

chwarae yn ystod amseroedd cyrraedd a chasglu'r plant a thrwy gydol y sesiwn, ac yn goruchwylio'r plant yn agos dan do ac yn yr awyr agored.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae arweinwyr a rheolwyr y cylch chwarae yn gadarn ac maent yn gweithio'n agos gyda'r staff i greu ethos tîm cryf a chefnogol. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn gweithio'n galed i sicrhau y caiff y rhain eu rhoi ar waith yn gadarn i sicrhau bod y sesiwn yn mynd rhagddi'n ddidrafferth. Mae'r cymarebau staff i blant uchel yn galluogi'r staff i feithrin a theilwra eu cefnogaeth i'w plant allweddol. Mae systemau cadarn ar waith i fonitro perfformiad y staff ac ansawdd y gwasanaeth, ond gellid cryfhau mesurau i gynnwys y staff yn yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Mae partneriaethau â'r rhieni yn effeithiol, ac mae'r staff yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill.

### Ein canfyddiadau

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb yn ymrwymedig iawn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i blant lleol a'u teuluoedd. Maent yn rhoi o'u hamser a'u hegni i sicrhau bod y tîm o staff ymroddedig a llawn cymhelliant yn rhoi nodau'r cylch chwarae ar waith yn effeithiol. Mae prosesau recriwtio, fetio a sefydlu'r staff wedi golygu eu bod yn wybodus iawn am bolisïau a gweithdrefnau'r cylch chwarae. Gwnaethant esbonio'n hyderus weithdrefnau ar gyfer casglu'r plant yn ddiogel a rhoi meddyginiaeth; maent yn hollol ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Gwnaethom archwilio ffeiliau pedwar aelod o'r staff a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol i gadarnhau eu haddasrwydd i helpu i ddiogelu'r plant. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion a'r dogfennau a welsom yn fanwl, yn drefnus ac yn cael eu storio'n ddiogel. Mae'r Datganiad o Ddiben yn rhoi darlun da o'r hyn y mae'r cylch chwarae yn ei ddarparu, a chaiff ei ddiweddaru a'i rannu ag AGC a'r rhieni yn rheolaidd. Roedd adolygiad o ffeiliau tri phlentyn yn dangos bod ychydig o wybodaeth ar goll ac nad oedd yr holl gontractau â'r rhieni yn cael eu cwblhau'n gyson i gytuno ar drefniadau busnes. Fodd bynnag, roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda yn nhrefn yr wyddor ac wedi'u storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo i hyrwyddo cyfrinachedd. Mae angen gwneud gwelliannau i'r systemau presennol ar gyfer cofnodi presenoldeb i ddangos yn glir pwy sy'n bresennol ar unrhyw adeg benodol. Gwelsom nad oedd y system lofnodi electronig newydd wrth gyrraedd a gadael ar gyfer y staff ac ymwelwyr a chofrestrau'r plant yn cael eu defnyddio na'u cwblhau yn gyson.

Mae'r rhaglen dechrau'n deg yn gosod disgwyliadau uchel ac yn cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus y staff. O ganlyniad, dywedodd y staff wrthym bod sesiynau hyfforddi da ar gael iddynt a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rôl. Ar y cyfan, mae systemau cadarn ar waith i fonitro ymarfer ac ansawdd y gwasanaeth. Mae'r staff yn cwblhau 'Clear Reviews', gan asesu a myfyrio ar eu hymarfer a'u perfformiad eu hunain drwy gydol y flwyddyn. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cynnal ymarferion arsylwi misol ar gyfer pob aelod o'r staff ac yn defnyddio'r wybodaeth hon a myfyrio'r staff i lywio'u sesiynau goruchwylio bob tymor

a'u harfarniadau dwywaith y flwyddyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal Adolygiad Blynyddol o Ansawdd Gofal ac yn defnyddio adborth o'r asesiadau Graddfa Amgylcheddol Babanod a Phlant Bach ddwywaith y flwyddyn a holiaduron y rhieni bob tymor i lywio'r adroddiad.  Mae hyn yn darparu cyfleoedd da i'r rhieni rannu eu barn am y gwasanaeth a gofal eu plentyn. Mewn ymateb i sylwadau'r rhieni nad oeddent yn gwybod pwy oedd person allweddol eu plentyn, mae lluniau o'r staff a'u plentyn allweddol bellach yn cael eu harddangos yn y cyntedd. Fodd bynnag, nid oes systemau ar waith i'r staff rannu eu barn a'u syniadau a chyfrannu at yr adolygiad blynyddol.

Mae partneriaethau wedi hen ymsefydlu.  Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw a'r holiaduron adborth i'r rhieni gan AGC yn canmol y staff ac ansawdd y gofal y mae eu plant yn ei gael yn fawr. Dywedodd y rheini, "*The playgroup and staff are amazing…*" a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael llawer o wybodaeth am y cylch chwarae yn ystod y cyfarfod croeso i rieni a phlant newydd. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi cyfarfodydd bob tymor i'r rhieni i drafod cyflawniadau a chynnydd parhaus eu plant a'r cyfle i gytuno ar dargedau newydd. Mae cylchlythyrau rheolaidd, negeseuon testun, hysbysfwrdd a chyfathrebu dyddiol yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae diwrnodau cyfranogaeth rhieni, diwrnodau dathlu, a sesiynau Iaith a Chwarae wythnosol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i gynnwys y rhieni yn y cylch chwarae.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau yn gyson, gan gynnwys pob math o deithiau, a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus;
- adolygu proses ansawdd y gofal fel bod y staff yn ymgymryd â rôl fwy gweithredol yn y broses a bod eu barn yn cael ei chynnwys;
- sicrhau bod contractau â'r rhieni i gytuno ar drefniadau busnes yn cael eu cwblhau'n gyson, gan gynnwys cofnodi gwybodaeth am unigolion a enwyd i gasglu plentyn, a diwrnodau ac amseroedd presenoldeb y cytunwyd arnynt.

## 6. **Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn**

Arolygiad dirybudd wedi'i drefnu oedd hwn, a gynhaliwyd gan un arolygydd dros gyfnod o ddau ymweliad a oedd yn gyfanswm o 7 awr a 25 munud. Casglwyd tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn gan ddefnyddio'r fethodoleg ganlynol:

- Gwnaethom adolygu gwybodaeth a ddelir gan AGC, gan gynnwys y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, yr adroddiad ar Ansawdd y Gofal a'r Datganiad o Ddiben;
- gwnaethom arsylwi ar chwarae'r plant dan do ac yn yr awyr agored, eu rhyngweithio â'r staff, a gwnaethom ymuno â nhw ar daith i gartref gofal lleol;
- gwnaethom siarad â'r plant, y staff, tri rhiant, a'r unigolyn cyfrifol;
- gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau a dogfennau a chofnodion gweithredol, gan gynnwys ffeiliau'r staff a'r plant; cofrestrau presenoldeb, ffeiliau diogelwch, a dyddiaduron dysgu ac asesu'r plant;
- gwnaethom gynnal arolygiad gweledol o'r ardaloedd a'r adnoddau chwarae;
- gwnaethom ystyried yr adborth gan dri rhiant a holiaduron pedwar aelod o'r staff.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 5. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Sian Williams** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Keysha Bird** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **17** |
| **Ystod oedran y plant** | **Dwy a thair oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 9:10am a 11:40am bob diwrnod yn ystod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Dim** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **11 a 12 Rhagfyr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld y byddai'n darparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg gan fod y darparwr yn gweithredu mewn ardal lle nad y Gymraeg yw'r iaith amlycaf. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol "Mwy na Geiriau" Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol: Dim** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/02/2020